**Parau hyd at 100**

Dyma gêm i ddau chwaraewr.

- Pawb yn tynnu llun 10 cylch. Ysgrifennwch rif dau ddigid gwahanol ymhob cylch - ond nid rhif 'deg' (10, 20, 30, 40…).
- Yn eich tro, dewiswch un o rifau'r chwaraewr arall.
- Mae'n rhaid i'r chwaraewr arall ddweud beth sydd angen ei ychwanegu at y rhif hwnnw i wneud 100, e.e. dewis 64, adio 36.
- Os yw'r chwaraewr arall yn gywir mae'n croesi'r rhif hwnnw allan.
- Y cyntaf i groesi 6 rhif allan sy'n ennill.

**Mygiau**



Bydd angen jwg mesur 1 litr a dewis o fygiau, cwpanau neu ficeri.

- Gofynnwch i'ch plentyn lenwi mwg â dŵr.
- Arllwyswch y dŵr yn ofalus i'r jwg.
- Darllenwch y mesuriad i'r 10 mililitr agosaf.
- Ysgrifennwch y mesuriad ar ddarn o bapur.
- Gwnewch hyn ar gyfer pob cwpan neu fwg.
- Yna gofynnwch i'ch plentyn ysgrifennu'r mesuriadau yn eu trefn.

**Fesul chwech**

Amserwch eich plentyn wrth iddo wneud un neu fwy o'r rhain.


- Cyfrif fesul chwech hyd at 60.
- Cyfrif yn ôl fesul chwech o 60 i sero.
- Dechreuwch ar 4. Cyfrifwch ymlaen fesul chwech hyd at 70.
- Dechreuwch ar 69. Cyfrifwch yn ôl fesul chwech i 3.

Yr wythnos nesaf, ceisiwch wella ar y record.

**6 12 18 24 30 36 42**

# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 4

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau Blwyddyn 4 

**Erbyn diwedd Blwyddyn 4, bydd bydd y rhan fwyaf o blant yn …**

☐ **Gwybod tabl 2, 3, 4, 5, 6, 8 a 10** ar eu cof, e.e. gwybod ffeithiau fel 7 x 5 a 36 ÷ 4.

☐ Talgrynnu rhifau fel 672 i'r 10 neu'r 100 agosaf.

☐ Dangos bod ffracsiwn syml fel $\frac{2}{6}$ yn gywerth â $\frac{1}{3}$.

☐ Cyfrifo symiau fel 26 + 58 a 62 - 37 yn eu pen.

☐ Gwneud symiau fel 234 + 479 neu 791 - 223 gan ddefnyddio papur a phensil a'u hysgrifennu mewn colofnau.

☐ Lluosi rhifau fel 38 â 10 neu 100, a rhannu rhifau fel 4200 â 10 neu 100.

☐ Lluosi a rhannu rhifau hyd at 100 â 2, 3, 4 neu 5, a dod o hyd i'r gweddill, e.e. 36 x 3, 87 ÷ 4.

☐ Newid punnoedd yn geiniogau a chentimetrau yn fetrau, ac fel arall, e.e. gweld bod £3.45 yr un peth â 345c, a bod 3.5 metr yr un peth â 350 centimetr.

☐ Dweud faint o'r gloch yw hi i'r funud agosaf a defnyddio amserlen syml.

☐ Dewis siapiau â nodweddion tebyg, e.e. siapiau ag ochrau o'r un hyd, neu ag onglau sgwâr, neu siapiau cymesur**.**

☐ Defnyddio +, -, x, ÷ i ddatrys problemau a phenderfynu a fyddai'n well cyfrifo yn y pen neu ar bapur**.**

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 4.

Mae'n bosib bod targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn gallu tynnu 497 o 506 drwy ysgrifennu mewn colofnau heb sylweddoli ei bod yn gyflymach cyfrif ymlaen o 497 i 506 yn eu pennau.

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Gweddillion

- Cymerwch dro i ddewis rhif dau ddigid sy'n llai na 50.
- Ysgrifennwch y rhif. Cyfrifwch ato fesul pedwar. Pa rif sy'n weddill?
- Y rhif sy'n weddill yw nifer y pwyntiau a sgoriwyd, e.e.

  Rydych chi'n dewis 27.
  Cyfrifwch: *4, 8, 12, 16, 20, 24.*
  3 sy'n weddill i gyrraedd 27.
  Felly rydych wedi sgorio 3 phwynt.
- Y cyntaf i gael 12 pwynt neu fwy sy'n ennill.

Nawr beth am chwarae'r gêm gan gyfrif fesul 3, neu fesul 5?

Fedrwch chi weld pa rifau fydd yn sgorio'r pwyntiau?

**4 8 12 16 20 24 28 32 36 40**